


Little Haven

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 200 400 m

PELLTER/HYD: 2.2 milltir (3.6 km) 1 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Broad Haven 311,

*Pâl Gwibio 400 (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: Llwybr yr arfordir – gall fod yn serth mewn manau, lôn fach wledig dawel, caeau a da byw, 0.6 milltir (1.0 km) o gerdded ar isffyrdd

CHWILIWCH AM: Golygfeydd gwyh o'r arfordir • pentref arfordirol prydferth Little Haven


MWY O WYBODAETH: Gofalwch rhag y traffig ar lwybr cul yr arfordir

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau

ALLWEDD

- • • • • Llwybr Cylch
- — — Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- - - - - Llwybrau Cyhoeddus
- Maes Parcio
- Toileadau Cyhoeddus
- Safle Bws



Little Haven

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr

Pellter: 2.2 milltir (3.6 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws
gwasanaeth Broad Haven 311, *Pâl
Gwibio 400 (*ymhorol, galw a
teithio).

Cyfeirnod map: SM856127

Mae Little Haven yn bentref bach tlws
sydd ag ymdeimlad Cernyweg.
Arferai fod yn gymuned fach bysgota,
ond mae'r pentref bellach yn gyrchfan
gwyliau poblogaidd.

Mae yna ymdeimlad mordwyol yma o
hyd oherwydd mae llawer o hwylwyr
hamdden yn cadw eu cychod yn Little
Haven ac mae yna orsaf fad achub
ynghudd ym maes parcio'r pentref.

Mae strydoedd Little Haven mor serth
â rhediad sgïo ac mae yna draeth
deniadol ar gefndir o raean bras. Os
yw'r llanw allan, treuliwch ychydig yn
archwilio'r ehangder o dywod tuag at
Broad Haven gerllaw a chwilio am
grancod yn y pyllau glan môr niferus.

Ers y 1800au mae'r ardal wedi bod
yn boblogaidd fel cyrchfan wyliau
gyda pheiriannau ymdrochi yn
weithredol ar draeth llydan Broad
Haven. Ond mae gan y darn hir o
arfodir rhwng Little Haven yn y de a
Niwgwl yn y gogledd orffennol
diwydiannol hefyd.

Mewn termau daearegol, mae'r darn
mawr hwn allan o arfordir Penfro yn
Haenau Glo, sef creigiau a ffurfiwyd
rhyw 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl
yn ystod y cyfnod Carbonifferaidd. Fe
fuon nhw'n cloddio am lo ar raddfa
gweddol fach ar hyd yr arfordir ers y
15fed ganrif a thorwyd glo caled ger
Little Haven ac yn Broad Haven,
Nolton Haven a Rickets Head hefyd.

Yna, allforiwyd y glo a gynhyrchwyd
yn lleol ar gychod yr arfordir, a
lwythwyd yn syth o'r traeth.

Fe all Little Haven fod yn brysur iawn
yn yr Haf ond tu allan i'r pentref mae
yn daith dawel ar hyd y llwybrau a'r
lonydd. Yn ystod y Gwanwyn ac yn
gynnar yn yr Haf, mae ymylon lonydd
Gorllewin Sir Benfro yn gyfoeth i'r
llygaid gydag amrywiaeth sylweddol o
flodau gwyllt, gan gynnwys y campion
coch, gorthyfail a bysedd y cŵn.

Mwy o wybodaeth: Gofalwch
rhag y traffig ar lwybr cul yr arfordir

